CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 389 (Cy.40)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru'n unig. Maent yn dirymu ac yn ailddeddfu o ran Cymru Reoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990 (O.S. 1990/2615, fel y'i diwygiwyd), sy'n rhychwantu Prydain Fawr i gyd. Yn ychwanegol at barhau i weithredu'r Cyfarwyddebau a bennir ym mharagraff 3 isod, mae'r Rheoliadau hyn yn awr hefyd yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 37/2005 ar fonitro tymereddau yn y cyfrwng ar gyfer cludo, cadw mewn warws a storio deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl, (OJ Rhif L10, 13.1.2005, t.18).

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn-

(a) yn gwahardd rhoi ar y farchnad ddeunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym oni fodlonir amodau penodol (*rheoliad 3*);

(b) yn gwahardd rhoi ar y farchnad ddeunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym ac sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y defnyddiwr olaf oni fodlonir amodau penodol ynghylch deunydd pecynnu (*rheoliad 4*);

(c) yn gosod gofynion sy'n berthnasol i labelu deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym (*rheoliad 5*);

(ch) yn gosod gofynion mewn perthynas â'r cyfarpar a ddefnyddir mewn cysylltiad â deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac a fwriedir ar gyfer eu rhoi ar y farchnad i'w bwyta gan bobl (*rheoliad 6*);

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 389 (W.40)

# FOOD, WALES

## The Quick-frozen Foodstuffs (Wales) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations apply in relation to Wales only. They revoke and re-enact in relation to Wales the Quick-frozen Foodstuffs Regulations 1990 (S.I. 1990/2615, as amended), which extend to the whole of Great Britain. In addition to continuing the implementation of the Directives specified in paragraph 3 below, these Regulations now also provide for the execution and enforcement of Commission Regulation (EC) No. 37/2005 on the monitoring of temperatures in the means of transport, warehousing and storage of quick-frozen foodstuffs intended for human consumption (OJ No. L10, 13.1.2005, p.18).

**2**. These Regulations-

(a) prohibit the placing on the market of a quick-frozen foodstuff unless certain conditions are satisfied (*regulation 3*);

(b) prohibit the placing on the market of a quick-frozen foodstuff intended for the ultimate consumer unless certain conditions regarding packaging are satisfied (*regulation 4*);

(c) impose requirements relating to the labelling of quick-frozen foodstuffs (*regulation 5*);

(d) impose requirements in relation to the equipment used in respect of quick-frozen foodstuffs intended for placing on the market for human consumption (*regulation 6*);

(d) yn darparu ar gyfer arolygiadau ychwanegol o ddeunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac o'r tymereddau a gynhelir mewn cysylltiad â hwy (*rheoliad 7*);

(dd) yn ei gwneud yn ofynnol i weithredydd bwyd drefnu bod cofnodion ar gael mewn amgylchiadau penodol (*rheoliad 8*);

(e) yn darparu y bydd person sy'n mynd yn groes i un neu rai o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn neu sy'n methu â chydymffurfio â'r ddarpariaeth honno neu'r darpariaethau hynny yn euog o dramgwydd, ac maent yn creu cosb ar gyfer y tramgwydd hwnnw (*rheoliad 9(1)*);

(f) yn darparu, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, sef cydymffurfio â gofynion trosiannol ar gyfer offerynnau mesur a osodwyd cyn 1 Ionawr 2006 yn achos mynd yn groes i baragraff cyntaf Erthygl 2.2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 37/2005 a mynd yn groes i Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 37/2005 mewn cysylltiad â storfeydd oer bychain mewn allfeydd manwerthu lle y mae tymheredd yr awyr yn cael ei fesur gan thermomedr y mae modd ei weld yn hawdd bod person sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig y Rheoliad hwnnw neu sy'n methu â chydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd, ac maent yn creu cosb ar gyfer y tramgwydd hwnnw (*rheoliad 9(2), (3) a (4)*);

(ff) yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn (*rheoliad 9(5)*);a

(g) yn cymhwyso gydag addasiadau ddarpariaethau penodol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16) at ddibenion y Rheoliadau hyn (*rheoliad 10*).

**3**. Y canlynol yw'r Cyfarwyddebau a weithredir gan O.S. 1990/2615 ac y mae'r Rheoliadau hyn yn parhau i'w gweithredu-

(a) Cyfarwyddeb y Cyngor 89/108/EEC ar gyd-ddynesu cyfreithiau Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac sydd i'w bwyta gan bobl(**1**); a

(b) Cyfarwyddeb y Comisiwn 92/2/EEC sy'n gosod y weithdrefn samplu a dull y Gymuned o ddadansoddi er mwyn rheoli'n swyddogol dymereddau bwydydd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl (OJ Rhif L34, 11.2.92, t.30).

(**1**) OJ Rhif L40, 11.12.89. t.34 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf ar adeg gwneud yr offeryn hwn gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/107/ EC sy'n addasu Cyfarwyddeb 89/108/EEC sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac sydd i'w bwyta gan bobl a Chyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu deunyddiau bwyd, oherwydd bod Bwlgaria a Romania wedi ymaelodi (OJ Rhif L363, 20.12.06, t.411).

(e) provide for additional inspections of quick-frozen foodstuffs and of the temperatures maintained in respect of them (*regulation 7*);

(f) require a food operator to make records available in certain circumstances (*regulation 8*);

(g) provide that a person who contravenes or fails to comply with any of the provisions of these Regulations is guilty of an offence and create a penalty for that offence (*regulation 9(1)*);

(h) provide that subject to certain exceptions, namely compliance with transitional requirements for measuring instruments installed before 1st January 2006 in the case of a contravention of the first paragraph of Article 2.2 of Commission Regulation (EC) No. 37/2005 and a contravention of Article 2 of Commission Regulation (EC) No. 37/2005 in respect of small cold stores in retail outlets where the air temperature is measured by an easily visible thermometer) a person who contravenes or fails to comply with specified provisions of that Regulation is guilty of an offence and create a penalty for that offence (*regulation 9(2), (3) and (4)*);

(i) provide for the execution and enforcement of these Regulations (*regulation 9(5)*); and

(j) apply with modifications certain provisions of the Food Safety Act 1990 (1990 c.16) for the purposes of these Regulations (*regulation 10*).

**3**. The Directives implemented by S.I. 1990/2615 that these Regulations continue to implement are-

(a) Council Directive 89/108/EEC on the approximation of the laws of Member States relating to quick-frozen foodstuffs for human consumption(**1**); and

(b) Commission Directive 92/2/EEC laying down the sampling procedure and the Community method of analysis for the official control of the temperatures of quick-frozen foods intended for human consumption (OJ No. L34, 11.2.92, p.30).

(**1**) OJ No. L40, 11.12.89, p.34 as last amended as at the making of this instrument by Council Directive 2006/107/EC adapting Directive 89/108/EEC relating to quick frozen foodstuffs for human consumption and Directive 2000/13/EC of the European Parliament and of the Council relating to the labelling, presentation and advertising of foodstuffs, by reason of the accession of Bulgaria and Romania (OJ No. L363, 20.12.06, p.411).

**4**. Mae Asesiad Rheoliadol llawn o'r effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnes a'r sector gwirfoddol ar gael gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW, ac fe'i hatodir i'r Memorandwm Esboniadol sydd ar gael ochr yn ochr â'r offeryn ar wefan OPSI.

**4**. A full Regulatory Appraisal of the effect that this instrument will have on the costs of business and the voluntary sector is available from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW, and is annexed to the Explanatory Memorandum which is available alongside the instrument on the OPSI website.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 389 (Cy.40)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *13 Chwefror 2007* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**2**) at ddibenion yr adran honno ynghylch mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**) cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bo'r Rheoliadau canlynol yn cael eu llunio.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw "Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007".

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) O.S. 2003/2901.

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf ar adeg gwneud yr offeryn hwn gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran nifer Panelau Gwyddonol parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a'u henwau (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 389 (W.40)

# FOOD, WALES

## The Quick-frozen Foodstuffs (Wales) Regulations 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 February 2007* |
| *Coming into force* | *1 March 2007* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**).

The National Assembly for Wales has been designated() for the purposes of that section in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**3**) there has been open and transparent public consultation during the preparation of the following Regulations.

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) The title of these Regulations is "The Quick-frozen Foodstuffs (Wales) Regulations 2007".

(2) These Regulations come into force on 1 March 2007.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) 1972 c.68.

(**2**) S.I. 2003/2901.

(**3**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. as last amended as at the making of this instrument by commission Regulation (EC) No. 575/2006 amending Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council as regards the number and names of the permanent Scientific Panels of the European Food Safety Authority (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

**Dehongli**

**2.**-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr a roddir i "*food authority*" yn rhinwedd adran 5(1) o'r Ddeddf, ac eithrio nad yw'n cynnwys y Trysorydd priodol y cyfeirir ato yn adran 5(1)(c) o'r Ddeddf (sy'n ymdrin â'r Deml Fewnol a'r Deml Ganol);

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw'r awdurdod sy'n gyfrifol, yn rhinwedd rheoliad 9(5), dros weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn;

mae i "bwyd" yr ystyr a roddir i "*food*" yn Rheoliad 178/2002;

ystyr "cabinet arddangos manwerthol" ("*retail display cabinet*") yw unrhyw gabinet y mae deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym yn cael ei roi ar y farchnad ynddo at ddibenion manwerthu neu wrth gynnal busnes talu a chario;

ystyr "Cyfarwyddeb 89/108" ("*Directive 89/108*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 89/108/EEC ar gyd-ddynesu cyfreithiau Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ar gyfer eu bwyta gan bobl(**1**);

ystyr "Cyfarwyddeb 92/2" ("*Directive 92/2*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 92/2/EEC sy'n gosod y weithdrefn samplu a dull y Gymuned o ddadansoddi er mwyn rheoli'n swyddogol dymereddau bwydydd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(**2**);

ystyr "darpariaeth Gymunedol benodedig" ("*specified Community provision*") yw unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliad 37/2005 sydd wedi'i phennu yng ngholofn 1 o Atodlen 1 ac y mae pwnc y ddarpariaeth honno wedi'i ddisgrifio yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno;

mae i "defnyddiwr olaf" yr ystyr a roddir i "*ultimate consumer*" yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996;

ystyr "deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym" ("*quick-frozen foodstuff*") yw cynnyrch-

(**1**) OJ Rhif L40, 11.2.89, t.34, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf ar adeg gwneud yr offeryn hwn gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/107/EC sy'n addasu Cyfarwyddeb 89/108/EEC sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac sydd i'w bwyta gan bobl a Chyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu deunyddiau bwyd, a hynny oherwydd bod Bwlgaria a Romania wedi ymaelodi (OJ Rhif L363, 20.12.2006, t.411).

(**2**) OJ Rhif L034, 11.2.92, t.30.

**Interpretation**

**2.**-(1) In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990(**1**);

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") in relation to an enforcement authority, means any person (whether or not an officer of the authority) who is authorised by them in writing, either generally or specially, to act in matters arising under these Regulations;

"catering establishment" ("*sefydliad arlwyo*") has the meaning that it bears in the Food Labelling Regulations 1996(**2**);

"Directive 89/108" ("*Cyfarwyddeb 89/108*") means Council Directive 89/108/EEC on the approximation of the laws of Member States relating to quick-frozen foodstuffs for human consumption(**3**);

"Directive 92/2" ("*Cyfarwyddeb 92/2*") means Commission Directive 92/2/EEC laying down the sampling procedure and the Community method of analysis for the official control of the temperatures of quick-frozen foods intended for human consumption(**4**);

"enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi*") means the authority which, by virtue of regulation 9(5), is responsible for executing and enforcing these Regulations;

"food" ("*bwyd*") has the meaning that it bears in Regulation 178/2002;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the meaning it bears by virtue of section 5(1) of the Act, except that it does not include the appropriate Treasurer referred to in section 5(1)(c) of the Act (which deals with the Inner Temple and Middle Temple);

"local distribution", ("*dosbarthiad lleol" and "dosbarthu'n lleol*") in relation to any product, means that part of the distribution chain in which the product is delivered to the point of placing on the market for retail purposes (such placing on the market to include placing on the market to a catering establishment);

(**1**) 1990 c.16.

(**2**) S.I. 1996/1499, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**3**) OJ No. L40, 11.2.89, p.34.as last amended as at the making of this instrument by Council Directive 2006/107/EC adapting Directive 89/108/EEC relating to quick-frozen foodstuffs for human consumption and Directive 2000/13/EC of the European Parliament and of the Council relating to the labelling, presentation and advertising of foodstuffs, by reason of the accession of Bulgaria and Romania (OJ No. L363, 20.12.2006, p.411).

(**4**) OJ No. L034, 11.2.92, p.30.

(a) sydd wedi'i ffurfio o fwyd sydd wedi bod drwy broses rewi a elwir "rhewi'n gyflym" sy'n golygu bod parth yr uchafbwynt crisialu yn cael ei groesi mor gyflym â phosibl, yn dibynnu ar y math o gynnyrch; a

(b) sydd wedi'i labelu at ddibenion ei roi ar y farchnad i ddangos ei fod wedi mynd drwy'r broses honno,

ond nad yw'n cynnwys hufen iâ nac unrhyw iâ bwytadwy arall;

ystyr "dosbarthiad lleol" a "dosbarthu'n lleol" ("*local distribution*"), mewn perthynas ag unrhyw gynnyrch, yw'r rhan honno o'r gadwyn ddosbarthu pan fo'r cynnyrch yn cael ei ddanfon i'r man lle mae'n cael ei roi ar y farchnad at ddibenion manwerthu (a bod ei roi felly ar y farchnad i gynnwys rhoi ar y fachnad i sefydliad arlwyo);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**);

dehonglir "rhagbecyn" ("*prepackaging*") yn unol â'r diffiniad o "prepacked" yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 ond gan roi'r geiriau "placed on the market" yn lle'r geiriau "offered for sale";

ystyr "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd;

ystyr "Rheoliad 37/2005" ("*Regulation 37/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 37/2005 ar fonitro tymereddau yn y cyfrwng ar gyfer cludo, cadw mewn warws a storio deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(**2**);

mae i'r ymadrodd "rhoi ar y farchnad" yr ystyr a roddir i "placing on the market" a "*place on the market*" yn Rheoliad 178/2002 a rhaid dehongli "wedi'i roi ar y farchnad" ("*placed on the market*") yn unol â hynny;

mae i "sefydliad arlwyo" yr ystyr a roddir i "*catering establishment*" yn Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**3**); ac

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*"), o ran awdurdod gorfodi, yw unrhyw berson (p'un a yw'n swyddog i'r awdurdod ai peidio) sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw, naill ai'n gyffredinol neu'n arbennig, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) OJ Rhif L10, 13.1.05, t.18.

(**3**) O.S. 1996/1499, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"placing on the market" ("*rhoi ar y farchnad*") has the meaning that it bears in Regulation 178/2002 and "placed on the market" ("wedi'i rhoi ar y farchnad") and "place on the market" shall be construed accordingly;

"prepackaging" ("*rhagbecyn*") is construed in accordance with the definition of "prepacked" in the Food Labelling Regulations 1996 but with the words "placed on the market" being substituted for the words "offered for sale";

"quick-frozen foodstuff" ("*deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym*") means a product-

(a) comprising food which has undergone a freezing process known as "quick-freezing" whereby the zone of maximum crystallisation is crossed as rapidly as possible, depending on the type of product; and

(b) which is labelled for the purpose of placing on the market to indicate that it has undergone that process,

but does not include ice-cream or any other edible ice;

"Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*") means Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety;

"Regulation 37/2005" ("*Rheoliad 37/2005*") means Commission Regulation (EC) No. 37/2005 on the monitoring of temperatures in the means of transport, warehousing and storage of quick-frozen foodstuffs intended for human consumption(**1**);

"retail display cabinet" ("*cabinet arddangos manwerthol*") means any cabinet in which a quick-frozen foodstuff is placed on the market for retail purposes or in the course of a cash-and-carry business;

"specified Community provision" ("*darpariaeth Gymunedol benodedig*") means any provision of Regulation 37/2005 that is specified in column 1 of Schedule 1 and whose subject-matter is described in column 2 of that Schedule; and

"ultimate consumer" ("*defnyddiwr olaf*") has the meaning that it bears in the Food Labelling Regulations 1996.

(**1**) OJ No. L10, 13.1.05, p.18.

(2) Oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yng Nghyfarwyddeb 89/108, Cyfarwyddeb 92/2 neu Reoliad 37/2005 yr ystyr y mae'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn ei ddwyn yng Nghyfarwyddeb 89/108, Cyfarwyddeb 92/2 neu Reoliad 37/2005, yn ôl y digwydd.

(3) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf yn cael eu neilltuo-

(a) drwy orchymyn o dan adran 2 neu 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), i awdurdod iechyd porthladd;

(b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(**2**), i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig; neu

(c) drwy orchymyn o dan baragraff 15(6) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985(**3**), i awdurdod sengl ar gyfer sir fetropolitanaidd,

mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd i'w ddehongli, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y maent wedi'u neilltuo felly iddo.

**Rhoi deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ar y farchnad**

**3**. Ni chaiff neb roi deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym ar y farchnad ar gyfer ei fwyta gan bobl oni bai bod yr amodau a nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 wedi'u bodloni ynglŷn â'r bwyd hwnnw.

**Pecynnu deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y defnyddiwr olaf**

**4**. Ni chaiff neb roi unrhyw ddeunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym ac sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y defnyddiwr olaf ar y farchnad oni bai-

(a) ei fod wedi'i bacio gan ei weithgynhyrchydd neu baciwr mewn rhagbecyn sy'n addas i'w ddiogelu rhag halogiad gan ficrobau a ffurfiau eraill ar halogiad allanol a rhag dadhydradu; a

(b) bod y deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym wedi aros yn y rhagbecyn hwnnw hyd nes iddo gael ei roi ar y farchnad.

(**1**) 1984 p.22; amnewidiwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16).

(**2**) 1936 p.49; mae adran 6 i'w darllen gyda pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(**3**) 1985 p.51; diwygiwyd paragraff 15(6) gan baragraff 31(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(2) Unless the context otherwise requires, any expression used both in these Regulations and in Directive 89/108, Directive 92/2 or Regulation 37/2005 has the meaning that it bears in Directive 89/108, Directive 92/2 or Regulation 37/2005, as the case may be.

(3) Where any functions under the Act are assigned-

(a) by an order under section 2 or 7 of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(**1**), to a port health authority;

(b) by an order under section 6 of the Public Health Act 1936(**2**), to a joint board for a united district; or

(c) by an order under paragraph 15(6) of Schedule 8 to the Local Government Act 1985(**3**), to a single authority for a metropolitan country,

any reference in these Regulations to a food authority is to be construed, so far as relating to those functions, as a reference to the authority to whom they are so assigned.

**Placing on the market of quick-frozen foodstuffs**

**3**. No person may place a quick-frozen foodstuff on the market for human consumption unless the conditions set out in paragraph 1 of Schedule 2 are satisfied in relation to it.

**Packaging of quick-frozen foodstuffs intended for the ultimate consumer**

**4**. No person may place any quick-frozen foodstuff intended for the ultimate consumer on the market unless-

(a) it has been packed by its manufacturer or packer in such prepackaging as is suitable to protect it from microbial and other forms of external contamination and against dehydration; and

(b) the quick-frozen foodstuff has remained in such prepackaging up to the time of placing on the market.

(**1**) 1984 c.22; section 7(3)(d) was substituted by paragraph 27 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990 (1990 c.16).

(**2**) 1936 c.49; section 6 is to be read with paragraph 1 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990.

(**3**) 1985 c.51; paragraph 15(6) was amended by paragraph 31(b) of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990.

**Marchnata neu labelu bwydydd sydd wedi'u rhewi'n gyflym**

**5**.-(1) Ni chaiff neb roi ar y farchnad unrhyw fwyd a fwriedir ar gyfer y defnyddiwr olaf neu ar gyfer unrhyw sefydliad arlwyo os bydd marcio'r bwyd neu ei labelu yn mynd yn groes i baragraff (1) neu (2) ac ni chaiff neb roi ar y farchnad unrhyw fwyd a fwriedir ar gyfer unrhyw berson arall os yw ei farcio neu ei labelu'n mynd yn groes i baragraff (2) neu (3).

(2) Caniateir i'r disgrifiad "*quick-frozen*" neu unrhyw ddisgrifiad arall a restrir yn Erthygl 8.1(a) o Gyfarwyddeb 89/108 gael ei ddefnyddio'n unswydd fel label i roi'r naill neu'r llall o'r canlynol ar y farchnad-

(a) bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym; neu

(b) bwyd sydd yn rhinwedd y label hwnnw yn dod yn ddeunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym.

(3) Rhaid i ddeunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym ac y bwriedir ei gyflenwi, heb brosesu pellach, i'r defnyddiwr olaf neu i sefydliad arlwyo, yn ychwanegol at y disgrifiad "quick-frozen" (ac, yn ôl fel y gwêl y cyflenwr arfaethedig yn dda, unrhyw ddisgrifiad arall a restrir yn Erthygl 8.1(a) o Gyfarwyddeb 89/108) a ychwanegir at ei enw gwerthu, fod wedi'i farcio neu wedi'i labelu, a hynny ar ddeunydd pacio, cynhwysydd neu ddeunydd lapio'r bwyd hwnnw, neu ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd hwnnw, â'r wybodaeth ganlynol-

(a) dangosiad ynglŷn â'r dyddiad parhauster lleiaf;

(b) dangosiad ynglŷn â'r cyfnod hwyaf y byddai'n ddoeth ei storio;

(c) dangosiad ynghylch-

(i) ar ba dymheredd a/neu

(ii) ym mha gyfarpar

y byddai'n ddoeth ei storio;

(ch) cyfeiriad sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod y swp y mae'r bwyd yn perthyn iddo; a

(d) neges glir o'r math sy'n dweud "do not refreeze after defrosting".

(4) Rhaid i unrhyw ddeunydd bwyd arall sydd wedi'i rewi'n gyflym, yn ychwanegol at y disgrifiad "quick-frozen" (ac, yn ôl fel y gwêl y cyflenwr yn dda, unrhyw ddisgrifiad arall a restrir yn Erthygl 8.1(a) o Gyfarwyddeb 89/108) a ychwanegir at ei enw gwerthu, fod wedi'i farcio neu wedi'i labelu, a hynny ar ddeunydd pacio, cynhwysydd neu ddeunydd lapio'r bwyd arall hwnnw, neu ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd arall hwnnw, â'r wybodaeth ganlynol-

(a) cyfeiriad sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod y swp y mae'r bwyd yn perthyn iddo; a

(b) enw neu enw busnes a chyfeiriad y gweithgynhyrchydd neu'r paciwr, neu berson sydd wedi'i sefydlu o fewn y Gymuned ac sy'n rhoi'r deunydd bwyd hwnnw ar y farchnad.

**Marketing or labelling of quick-frozen foodstuffs**

**5**.-(1) No person may place on the market any food intended for the ultimate consumer or any catering establishment where its labelling or marking contravenes paragraph (2) or (3) and no person may place on the market any food intended for any other person where its labelling or marking contravenes paragraph (2) or (4).

(2) The description "*quick-frozen*" or any other description listed in Article 8.1(a) of Directive 89/108 may only be used in the labelling for the purpose of placing on the market of-

(a) a quick-frozen foodstuff; or

(b) a food which by virtue of that labelling becomes a quick-frozen foodstuff.

(3) A quick-frozen foodstuff intended for supply, without further processing, to the ultimate consumer or to a catering establishment must, in addition to the description "quick-frozen" (and, as the intending supplier may see fit, any other description listed in Article 8.1(a) of Directive 89/108) added to its sales name, be marked or labelled on its packaging, container or wrapping, or on a label attached thereto, with-

(a) an indication of the date of minimum durability;

(b) an indication of the maximum period during which it is advisable to store it;

(c) an indication of-

(i) the temperature at which, and/or

(ii) the equipment in which,

it is advisable to store it;

(d) a reference allowing identification of the batch to which it belongs; and

(e) a clear message of the type "do not refreeze after defrosting".

(4) Any other quick-frozen foodstuff must, in addition to the description "quick-frozen" (and, as the supplier may see fit, any other description listed in Article 8.1(a) of Directive 89/108) added to its sales name, be marked or labelled on its packaging, container or wrapping, or on a label attached thereto, with-

(a) a reference allowing identification of the batch to which it belongs; and

(b) the name or business name and address of the manufacturer or packer, or of a person who places that foodstuff on the market established within the Community.

**Cyfarpar**

**6**. Rhaid i bob gweithredydd bwyd sy'n trafod deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym ac sydd wedi'i fwriadu i'w roi ar y farchnad ar gyfer ei fwyta gan bobl sicrhau, yn ystod pob cam y mae'r deunydd bwyd hwnnw yn ei ofal ac o dan ei reolaeth, fod y cyfarpar a ddefnyddir mewn perthynas â'r deunydd bwyd hwnnw yn gyfarpar a all sicrhau na fyddai unrhyw weithred neu anweithred o'i eiddo yn peri bod rhoi ar y farchnad ddeunyddiau bwyd i'w bwyta gan bobl yn mynd yn groes i'r Rheoliadau hyn.

**Samplu a dull mesur tymereddau**

**7**. Pan fo gan swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi sail resymol, yn sgil arolygiad, dros gredu nad yw'r tymereddau sy'n cael eu cadw neu sydd wedi'u cadw mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym yn dymereddau sydd wedi'u rhagnodi ar gyfer bwyd o'r fath ym mharagraff 1(d) ac (dd) o Atodlen 2, rhaid iddo arolygu ymhellach y deunydd bwyd hwnnw sydd wedi'i rewi'n gyflym a'r tymereddau hynny yn unol â darpariaethau Cyfarwyddeb 92/2.

**Cofnodion**

**8**. Os gofynnir iddo wneud hynny gan swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi, rhaid i bob gweithredydd bwyd sy'n trafod deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym drefnu bod y cofnodion y mae'n ofynnol eu cadw o dan Erthygl 2 o Reoliad 37/2005 ar gael i'r swyddog hwnnw neu i swyddog awdurdodedig arall i'r awdurdod hwnnw.

**Tramgwyddau, cosbau a gorfodi**

**9**.-(1) Os bydd unrhyw berson yn mynd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un ohonynt, bydd yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), os bydd unrhyw berson yn mynd yn groes i ddarpariaeth Gymunedol benodedig neu'n methu â chydymffurfio â hi, bydd yn euog o dramgwydd a bydd yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(3) Bernir na fydd person wedi mynd yn groes i baragraff cyntaf Erthygl 2.2 o Reoliad 37/2005 neu na fydd wedi methu â chydymffurfio â'r paragraff hwnnw os cydymffurfir â gofynion Atodlen 3.

(4) Bernir na fydd person wedi mynd yn groes i Erthygl 2 o Reoliad 37/2005 neu na fydd wedi methu â chydymffurfio â hi-

(a) os oedd y tramgwydd a fyddai fel arall wedi'i gyflawni yn dramgwydd ynglŷn â chyfleuster

**Equipment**

**6**. Each food operator handling a quick-frozen foodstuff intended for placing on the market for human consumption must ensure during each stage which it is within the food operator's control that the equipment used in respect of that foodstuff is such as to ensure that its eventual placing on the market does not contravene these Regulations, whether through an act or an omission on the part of the food operator.

**Sampling and method of measuring temperatures**

**7**. Where, further to an inspection, an authorised officer of an enforcement authority has reasonable grounds to believe that the temperatures that are being or have been maintained in respect of any quick-frozen foodstuff are not the temperatures prescribed for such foodstuff in paragraph 1(e) and (f) of Schedule 2, he must further inspect such quick-frozen foodstuff and such temperatures in accordance with the provisions of Directive 92/2.

**Records**

**8**. Each food operator handling a quick-frozen foodstuff must at the request of an authorised officer of an enforcement authority make available, to that or another authorised officer of that authority, the records required to be kept under Article 2 of Regulation 37/2005.

**Offences, penalties and enforcement**

**9**.-(1) If any person contravenes or fails to comply with any of the provisions of these Regulations that person is guilty of an offence and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4), if any person contravenes or fails to comply with a specified Community provision that person is guilty of an offence and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

(3) A person will not be considered to have contravened or failed to comply with the first paragraph of Article 2.2 of Regulation 37/2005 if the requirements of Schedule 3 are complied with.

(4) A person will not be considered to have contravened or failed to comply with Article 2 of Regulation 37/2005 if-

(a) the offence which would otherwise have been committed was in respect of a cold store

storio oer â chynhwysedd o lai na $10m^3x2$ a oedd yn cael ei ddefnyddio i storio stoc mewn allfeydd manwerthu; a

(b) os yw tymheredd yr aer yn y storfa oer yn cael ei fesur â thermomedr y mae modd ei weld yn hawdd.

(5) Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

**Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990**

**10**. Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn-

(a) adran 3 (rhagdybiaethau fod bwyd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(**1**), gyda'r addasiadau y bydd is-adrannau (2) i (4) yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan reoliad 9(1), sef mynd yn groes i reoliad 3, 4 neu 5(1), neu fethu â chydymffurfio â hwy, a hynny fel y maent yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan adran 14 neu 15, ac y tybir bod y cyfeiriad at "sale" yn is-adran (4)(b) o adran 21 yn cynnwys cyfeiriadau at "placing on the market";

(ch) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(d) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(dd) adran 33(2), gyda'r addasiad y tybir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection 1(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath ag a grybwyllir yn adran 33(1)(b) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);

(e) adran 35(1) cosbi am dramgwyddau(**2**), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);

(f) adran 35(2) a (3)(**3**), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (f);

(ff) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

facility with a capacity of less than $10m^3x2$ used for storing stock in retail outlets; and

(b) the air temperature in the cold store is measured by an easily visible thermometer.

(5) Each food authority must enforce and execute these Regulations within its area.

**Application of various provisions of the Food Safety Act 1990**

**10**. The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or a Part of it is to be construed as a reference to these Regulations-

(a) section 3 (presumptions that food intended for human consumption);

(b) section 20 (offences due to fault of another person);

(c) section 21 (defence of due diligence)(**1**), with the modifications that subsections (2) to (4) shall apply in relation to an offence under regulation 9(1) consisting of a contravention or failure to comply with regulation 3, 4 or 5(1) as they apply in relation to an offence under section 14 or 15 and that in subsection (4)(b) of section 21 the reference to "sale" shall be deemed to be include references to "placing on the market";

(d) section 30(8) (which relates to documentary evidence);

(e) section 33(1) (obstruction etc. of officers);

(f) section 33(2) with the modification that the reference to "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" shall be deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in section 33(1)(b) as applied by sub-paragraph (e);

(g) section 35(1) punishment of offences (**2**), in so far as it relates to offences under section 33(1) as applied by sub-paragraph (e);

(h) section 35(2) and (3) (**3**), in so far as it relates to offences under section 33(2) as applied by sub-paragraph (f);

(i) section 36 (offences by bodies corporate);

(**1**) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.

(**2**) Diwygir adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p.44), Atodlen 26, paragraff 42, yn dechrau ar ddyddiad sydd i'w benodi.

(**3**) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.

(**1**) Section 21 was amended by S.I. 2004/3279.

(**2**) Section 35(1) is amended by the Criminal Justice Act 2003, (2003 c.44) Schedule 26, paragraph 42, from a date to be appointed.

(**3**) Section 35(3) was amended by S.I. 2004/3279.

(g) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd)(**1**);

(ng) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll); ac

(h) adran 58(1) (sy'n ymwneud â dyfroedd tiriogaethol).

**Dirymu**

**11**. I'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, mae Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990(**2**) wedi'u dirymu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

13 Chwefror 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(j) section 36A (offences by Scottish partnerships)(**1**);

(k) section 44 (protection of officers acting in good faith); and

(l) section 58(1) (which relates to territorial waters).

**Revocation**

**11**. In so far as they apply in relation to Wales, the Quick-frozen Foodstuffs Regulations 1990(**2**) are revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**)

13 February 2007

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), Atodlen 5, paragraff 16.

(**2**) O.S. 1990/2615.

(**3**) 1998 p. 38.

(**1**) Section 36A was inserted by the Food Standards Act 1999 (1999 c.28) , Schedule 5, paragraph 16.

(**2**) S.I. 1990/2615.

(**3**) 1998 c. 38.

ATODLEN 1

Rheoliadau 2 a 9(2)

DARPARIAETHAU CYMUNEDOL PENODEDIG

| *1. Y Ddarpariaeth yn Rheoliad 37/2005* | *2. Y pwnc* |
|---|---|
| Erthygl 2.1 | Gofyniad bod rhaid gosod offerynnau cofnodi addas yn y cyfrwng ar gyfer cludo, cadw mewn warws a storio deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym er mwyn i'r offerynnau hynny fonitro yn aml ac yn rheolaidd dymheredd yr aer y mae'r deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym yn agored iddo. |
| Erthygl 2.2 - brawddeg gyntaf y paragraff cyntaf | Gofyniad bod rhaid i bob offeryn mesur a ddisgrifir yn Erthygl 2.1 o Reoliad 37/2005 gydymffurfio â safonau EN 12830, EN 13485 ac EN 13486. |
| Erthygl 2.2 - ail frawddeg y paragraff cyntaf | Gofyniad bod gweithredwyr bwyd yn cadw pob dogfen berthnasol sy'n cadarnhau bod yr offerynnau mesur yn cydymffurfio â'r safon EN berthnasol. |
| Erthygl 2.3 | Gofyniad bod rhaid i gofnodion tymheredd gael eu dyddio a'u storio gan y gweithredydd bwyd am gyfnod o flwyddyn o leiaf, neu am gyfnod hwy gan ystyried natur ac oes silff y deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym. |
| Erthygl 3.1 - paragraff cyntaf | Gofyniad mai dim ond ag un thermomedr y mae modd ei weld yn hawdd y mae'n rhaid mesur tymheredd yr aer tra bo deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym yn cael eu storio mewn cabinetau arddangos manwerthol, neu'n cael eu dosbarthu'n lleol. |
| Erthygl 3.1 - ail baragraff (a) a (b) | Gofyniad bod rhaid i linell uchafswm llwyth y cabinet fod wedi'i marcio'n glir a bod rhaid i'r thermomedr ddangos y tymheredd ar yr ochr lle mae'r aer yn dychwelyd ar lefel y marc hwnnw. |

# SCHEDULE 1

Regulations 2 and 9(2)

## SPECIFIED COMMUNITY PROVISIONS

| *1. Provision of Regulation 37/2005* | *2. Subject-matter* |
|---|---|
| Article 2.1 | Requirement that the means of transport, warehousing and storage of quick-frozen foodstuffs shall be fitted with suitable recording instruments to monitor, at frequent and regular intervals, the air temperature to which the quick-frozen foodstuffs are subjected. |
| Article 2.2 - first sentence of first paragraph | Requirement that all measuring instruments described in Article 2.1 of Regulation 37/2005 shall comply with EN 12830, EN 13485 and EN 13486 standards. |
| Article 2.2 - second sentence of first paragraph | Requirement that food operators keep all relevant documents verifying that the measuring instruments conform to the relevant EN standard. |
| Article 2.3 | Requirement that temperature recording shall be dated and stored by the food operator for a period of at least a year, or for longer taking into account the nature and shelf life of the quick-frozen foodstuffs. |
| Article 3.1 - first paragraph | Requirement that storage in retail display cabinets, or in the course of local distribution the air temperature shall only be measured by at least one easily visible thermometer. |
| Article 3.1 - second paragraph (a) and (b) | Requirement that in open retail cabinets the maximum load line of the cabinet shall be clearly marked and the thermometer shall indicate the temperature at the air return side at the level of that mark. |

## ATODLEN 2

Rheoliad 3

Yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni ynglŷn â deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym os bwriedir ei roi ar y farchnad ar gyfer ei fwyta gan bobl

**1**. Yr amodau yw-

(a) bod y deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym wedi'i weithgynhyrchu o ddeunyddiau crai sydd mewn cyflwr da, sy'n ddilys ac sydd o ansawdd werthadwy ac nid o unrhyw ddeunyddiau eraill;

(b) nad oes unrhyw ddeunydd crai wedi'i ddefnyddio i weithgynhyrchu'r deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym oni bai, ar yr adeg y cafodd ei ddefnyddio, y buasai wedi bod yn gyfreithlon i'r deunydd crai gael ei roi ar y farchnad ar gyfer ei fwyta gan bobl;

(c) bod y broses o baratoi a rhewi'n gyflym y deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym wedi'i chyflawni'n ddigon prydlon, a chan ddefnyddio cyfarpar technegol priodol, er mwyn lleiafu unrhyw newidiadau cemegol, biocemegol a microbiolegol i'r bwyd sydd wedi'i gynnwys ynddo;

(ch) nad oes unrhyw gyfrwng cryogenig ac eithrio cyfrwng cryogenig awdurdodedig wedi'i ddefnyddio mewn cysylltiad uniongyrchol ag unrhyw fwyd sydd wedi'i gynnwys yn y deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym;

(d) bod rhewi'n gyflym bob bwyd sydd wedi'i gynnwys yn y deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym wedi golygu bod tymheredd y bwyd hwnnw ar ôl sefydlogi ei wres yn -18oC neu'n oerach na hynny; ac

(dd) ar ôl rhewi'n gyflym bob bwyd sydd wedi'i gynnwys yn y deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym a sefydlogi gwres y bwyd hwnnw i gydymffurfio ag is-baragraff (d), fod tymheredd y bwyd hwnnw wedi'i gynnal ar lefel nad yw'n gynhesach na -18oC ac eithrio pan fo eithriad a ganiateir, ac sy'n ymwneud â thymheredd y bwyd hwnnw, yn gymwys.

**2**. At ddibenion paragraff 1-

(a) mae'r canlynol yn gyfryngau cryogenig awdurdodedig-

(i) aer,

(ii) nitrogen, neu

(iii) carbon diocsid;

a

## SCHEDULE 2

Regulation 3

Conditions that have to be satisfied in relation to a quick-frozen foodstuff if it is to be placed on the market for human consumption

**1**. The conditions are that-

(a) the quick-frozen foodstuff has been manufactured from raw materials of sound, genuine and merchantable quality and no other materials;

(b) no raw material has been used in the manufacture of the quick-frozen foodstuff unless, at the time of its use, it would have been lawful for the raw material to be placed on the market for human consumption;

(c) the preparation and quick-freezing of the quick-frozen foodstuff have been carried out with sufficient promptness, and by use of appropriate technical equipment, to minimise any chemical, biochemical and microbiological changes to the food comprised in it;

(d) no cryogenic medium other than an authorised cryogenic medium has been used in direct contact with any food comprised in the quick-frozen foodstuff;

(e) the quick-freezing of each food comprised in the quick-frozen foodstuff has resulted in the temperature of that food after thermal stabilisation being -18oC or colder; and

(f) following the quick-freezing and thermal stabilisation of each food comprised in the quick-frozen foodstuff in compliance with sub-paragraph (e) the temperature of that food has been maintained at a level no warmer than -18oC except where a permitted exception relating to the temperature of the food applies.

**2**. For the purposes of paragraph 1-

(a) an authorised cryogenic medium is-

(i) air,

(ii) nitrogen, or

(iii) carbon dioxide;

and

(b) mae eithriad a ganiateir sy'n ymwneud â thymheredd bwyd yn gymwys-

(i) pan fo'r bwyd hwnnw'n cael ei gadw am gyfnodau byr tra bo'n cael ei gludo (gan gynnwys cael ei ddosbarthu'n lleol) ar dymheredd sy'n gynhesach na -18oC ond nid yn gynhesach na -15oC, neu

(ii) pan fo'r bwyd hwnnw'n cael ei gadw mewn cabinet arddangos manwerthol ar dymheredd sy'n gynhesach na -18oC i raddau sy'n gyson ag arferion storio da ond nid yn gynhesach na -12oC.

(b) a permitted exception relating to the temperature of a food applies when-

(i) that food is kept within brief periods during transport (including local distribution) at a temperature warmer than -18oC but not warmer than -15oC, or

(ii) that food is kept in a retail display cabinet at a temperature warmer than -18oC to an extent consistent with good storage practice but not warmer than -12oC.

## ATODLEN 3

Rheoliad 9(3)

## GOFYNION TROSIANNOL AR GYFER OFFERYNNAU MESUR A OSODWYD CYN 1 IONAWR 2006

**Cymhwyso**

**1**. Dim ond ar gyfer offerynnau mesur a ddefnyddir at ddibenion monitro'r tymheredd fel y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 2.1 o Reoliad 37/2005 ac a osodwyd cyn 1 Ionawr 2006 y mae'r Atodlen hon yn gymwys.

**2**. Bydd yr Atodlen hon yn peidio â bod yn effeithiol ar 1 Ionawr 2010.

**Y gofynion**

**3**. Mae'r gofynion fel a ganlyn-

(a) o ran unrhyw gyfrwng storio neu gludo ac eithrio'r rhai a grybwyllir yn is-baragraffau canlynol y paragraff hwn, rhaid i'r offeryn fod yn system sy'n addas ar gyfer monitro, yn aml ac yn rheolaidd, dymereddau aer yn y cyfrwng hwnnw;

(b) o ran storio mewn siambr oer y mae ei chynhwysedd yn llai na $10m^3x2$ a hynny ar fangre a ddefnyddir ar gyfer rhoi'r deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ar y farchnad at ddibenion manwerthu, rhaid i'r offeryn fod yn thermomedr a osodir fel bod modd ei weld yn hawdd;

(c) o ran storio mewn cabinet arddangos manwerthol ac eithrio cabinet arddangos manwerthol agored) rhaid i'r offeryn fod yn un neu fwy o thermomedrau a osodir fel bod modd ei weld neu eu gweld yn hawdd;

## SCHEDULE 3

Regulation 9(3)

## TRANSITITONAL REQUIREMENTS FOR MEASURING INSTRUMENTS INSTALLED BEFORE 1ST JANUARY 2006

**Application**

**1**. This Schedule applies only in respect of measuring instruments used for the purpose of monitoring the temperature as provided for in Article 2.1 of Regulation 37/2005 that were installed before 1st January 2006.

**2**. This Schedule will cease to have effect on 1st January 2010.

**Requirements**

**3**. The requirements are that-

(a) in respect of any means of storage or transport other than those mentioned in the following sub-paragraphs of this paragraph, the instrument must be a system suitable for the monitoring, at frequent and regular intervals, of air temperatures within such means;

(b) in respect of storage in a cold chamber with a capacity of less than $10m^3x2$ on premises used for placing quick-frozen foodstuffs on the market for retail purposes, the instrument must be a thermometer so placed as to be easily visible;

(c) in respect of storage in a retail display cabinet (other than an open retail display cabinet) the instrument must be one or more thermometers so placed as to be easily visible;

(ch) o ran storio mewn cabinet arddangos manwerthol agored, rhaid i'r offeryn fod yn un neu fwy o thermomedrau a osodir fel bod modd ei weld neu eu gweld yn hawdd a rhaid iddo neu rhaid iddynt ddangos y tymheredd ar yr ochr lle mae'r aer yn dychwelyd ar lefel llinell uchafswm llwyth y cabinet hwnnw a honno'n llinell sydd wedi'i marcio'n glir;

(d) o ran cyfrwng cludo ac eithrio-

(i) cerbyd a gofrestrwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu

(ii) cyfrwng cludo pan fo'n cael ei ddefnyddio yn ystod dosbarthiad lleol,

rhaid i'r offeryn fod yn system ar gyfer monitro tymereddau aer-

(a2) y mae ei chywirdeb yn blws neu finws 1°C pan fo'i synhwyrydd yn mesur tymheredd o fewn yr ystod -25°C i +30°C,

(b2) nad yw ei chywirdeb mesur yn newid â mwy na phlws neu finws 0.5oC pan fo'n gweithredu ar dymereddau o fewn yr ystod -20°C i +30°C,

(c2) nad yw ei heglurder arddangos yn fwy nag 1°C, ac

(ch2) sy'n wydn ac sy'n gallu gwrthsefyll sioc;

(dd) o ran cerbyd sydd wedi'i gofrestru y tu allan i'r Deyrnas Unedig, rhaid i'r offeryn fod yn offeryn sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod cymwys yn y wlad y mae'r cerbyd wedi'i gofrestru ynddi; ac

(e) o ran cyfrwng cludo, pan fo hwnnw'n cael ei ddefnyddio yn ystod dosbarthiad lleol, rhaid i'r offeryn fod yn un neu fwy o thermomedrau a osodir fel bod modd ei weld neu eu gweld yn hawdd.

(d) in respect of storage in an open retail display cabinet, the instrument must be one or more thermometers so placed as to be easily visible and indicating the temperature at the air return side at the level of the clearly marked maximum load line for that cabinet;

(e) in respect of a means of transport other than-

(i) a vehicle registered outside the United Kingdom, or

(ii) a means of transport when being used in the course of local distribution,

the instrument must be a system for monitoring air temperatures that-

(aa) has an accuracy of plus or minus 1oC when its sensor is measuring a temperature within the range of -25°C to +30°C,

(bb) has a measuring accuracy which does not change by more than plus or minus 0.5°C when it is operating in temperatures within the range of -20°C to +30°C,

(cc) has a display resolution of not more than 1°C, and

(dd) is robust and shockproof;

(f) in respect of a vehicle registered outside the United Kingdom, the instrument must be an instrument which has been approved by the competent authority in the country in which the vehicle is registered; and

(g) in respect of means of transport when being used in the course of local distribution, the instrument must be one or more thermometers so placed as to be easily visible.

© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W0030/02/07 ON